



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

Cyfnewidfa Rheolaeth Cyswllt Ffermio

Kirsten Hoggard

Iwerddon

Beth allaf i ei wneud i osgoi lloi gwryw diangen o'r fuches laeth mewn system pori yng ngorllewin Cymru?

Mai 2019

1 Cyflwyniad ac Amcanion

Rwy'n gweithio ar fferm organig gymysg yng ngorllewin Cymru, sydd â 350 o fuchod godro a lloi benyw. Mae'r fferm yn defnyddio system seiliedig ar borfa a bydd y buchod yn lloea mewn bloc yn ystod yr hydref. Ar hyn o bryd, rydym ni'n wynebu'r broblem o ganfod rôl yn y busnes i'n lloi gwryw pur o'r fuches laeth neu loi diangen sy'n groesiadau o fridiau biff. Roeddwn i'n dymuno defnyddio'r prosiect hwn fel cyfle i ystyried gwahanol ddewisiadau o ran troi'r anifeiliaid hyn yn ased ar gyfer busnes y fferm yn hytrach na chynnyrch sy'n cael ei wastraffu, ac ychwanegu gwerth at gyfnod cynhyrchu llaeth pob buwch.


Penderfynais ymweld ag Iwerddon fel sylfaen i'r ymchwil hwn oherwydd ceir hinsawdd debyg yno a strwythurau ffermio tebyg i'r un sydd gan ein fferm ni, ac mae glaswellt yn allweddol i'r rhan fwyaf o'r ffermydd llaeth yno. Maent yn llythrennol yn wybodus iawn yn eu maes! Yn ychwanegol, ceir cysylltiad uniongyrchol rhwng ffermydd sydd ddim yn cadw gwartheg godro ar y naill law a buchesi llaeth ar y llaw arall. Mae marchnad sylweddol ar gyfer lloi o fuchesi llaeth sy'n cael eu geni yn y gwanwyn ar ffermydd llaeth, ac sydd wedi hynny yn cael eu gwerthu i ffermydd sydd ddim yn cadw gwartheg godro, sy'n canolbwyntio'n unig ar fagu a gwneud arian o'r sgil-gynhyrchion hyn o'r diwydiant llaeth.

2 Y Daith

Diwrnod 1: Chris James, Claire ac Aimee, Stackpole, Sir Benfro



Cychwynnais y daith trwy ymweld ag enghraifft wych Chris James o uned magu lloi sy'n lloea mewn bloc ym Mhenfro, wrth fynd i ddal y fferi. Caiff yr uned ei rhedeg gan Claire and Aimee, sy'n magu'r lloi, a buont yn ddigon caredig i roi cyfle i ni ymweld â'u siediau pwrpasol sy'n cynorthwyo i sicrhau iechyd a pherfformiad o'r radd flaenaf. Nid oes gan y siediau gwartheg blaen agored hyn unrhyw loriau concred, i sicrhau draeniad gwell. Sicrheir hylendid da trwy chwalo calch, ychwanegu 6 modfedd o dywod, ac yna, gorchuddio'r cyfan â gwellt. Cawsom wybod am bwysigrwydd sicrhau bod y lloi yn gorwedd yn y gwellt, nid ar ei ben.



Bob gwanwyn, byddant yn magu oddeutu 900 o loi, a bydd y mwyafrif yn cyrraedd yr uned o fewn cyfnod o ddau fis. Felly, mae protocol trylwyr a syml ynghylch sut i ofalu am y lloi hyn wedi dod yn hanfodol, ac roedd pwyslais ar baratoi da yn allweddol i'w llwyddiant, dymor ar ôl tymor. Roedd rhai o'r pwyntiau allweddol y gwnes i ei dysgu yn cynnwys pwysigrwydd rhannu lloi newydd yn grwpiau o 5 neu 10 o'r diwrnod cyntaf. Mae hynny'n fwy effeithlon o safbwynt amser a bydd y lloi yn aml yn cael eu hannog i sugno mwy yn sgil bod gyda lloi eraill. Bydd lloi yn cael colostrwm *ad lib* yn ystod y tri diwrnod cyntaf, yna caiff hynny ei newid yn raddol am iogwrt, a phan fyddant yn dair wythnos oed, byddant yn cael powdwr llaeth unwaith bod dydd yn lle'r iogwrt. Erbyn hynny, dylai cymeriant y lloi fod yn 1.5kg bob dydd, gan ddefnyddio llaeth powdwr ar gyfradd o 1.5 litr y lloi, a dylid anelu am gyfradd twf o 0.8kg

y llo bod dydd. Pan fyddant yn pwysu 80kg, yn wythnos 7 fwy neu lai, byddant yn cael eu diddyfnu, a byddant fel arfer yn cael eu troi allan ar borfa. Byddant yn dal i gael 1.5kg-2kg o ddwysfwyd sydd ag 18% o brotein, ond caiff hynny ei ostwng yn raddol o'u diet.

Fe wnaethant hefyd roi cyfle i ni weld enghraifft o ymarferoldeb cludo llaeth o amgylch yr uned i'r lloi. Roeddent yn dibynnu ar droliau â modur sy'n eu helpu i arbed amser a llafur. Penderfynais y gallai'r rhain fod yn ddefnyddiol iawn i ni.



Diwrnod 2: Diwrnod Agored 'Dairy Calf to Beef', Johnstown Castle, Wexford




Roeddwn i bellach wedi cyrraedd Roslare, yn barod at brif ddiben fy nhaith, sef mynychu diwrnod agored 'Dairy Calf to Beef', a oedd wedi cael ei drefnu gan Teagasc, Awdurdod Datblygu Amaethyddiaeth a Bwyd Iwerddon. Roedd gan y diwrnod agored ffocws go iawn ar wella effeithlonrwydd y tu ôl i giât y fferm, rhywbeth yr wyf i'n awyddus iawn i ddysgu amdano. Rhoddir pwyslais ar reoli glaswellt yn well ar ffermydd sydd ddim yn cadw gwartheg godro, gan ddefnyddio pob blewyn o laswellt i gynyddu elw wrth fagu a phesgi gwartheg biff.


Roedd ganddynt wybodaeth ddefnyddiol i ffermwyr llaeth hefyd ynghylch defnyddio teirw mynegai uchel yn y fuches laeth, ac ystyried nodweddion cynhyrchu biff wrth ddewis anifeiliaid at ddibenion semenu â semen confensiynol i sicrhau bod yr

epil yn werthadwy ar y bachyn. Hefyd, trwy ystyried y nodweddion hyn, roedd yn bosibl gwneud y gorau o'r epil a gynhyrchir gan ddefnyddio teirw biff mynegai uchel, i sicrhau llooi o ansawdd well sy'n perfformio'n well. Un o'r problemau cyffredin yn y diwydiant yw'r pwyslais sydd wedi'i roi ar loea'n rhwydd a dim arall wrth ddewis teirw biff (yn enwedig yn achos teirw Aberdeen Angus). Mae hynny'n golygu y gellir magu anifail heb gyfansoddiad carcass da, ac efallai na wnaiff fyth lwyddo i gyflawni'r gofynion wrth ei besgi, sy'n ei wneud yn ddi-werth.

“Mae geneteg yn creu'r potensial; rheoli sy'n gwireddu'r potensial”



Yn ystod y digwyddiad, dysgais am fanteision ac anfanteision gwahanol systemau pesgi, â phwyslais ar broffidioldeb ac oedrannau stoc wrth orffen eu pesgi. Roedd yn ddiddorol cymharu'r gwahaniaeth rhwng y math o system ddwys sy'n gorffen pesgi gwartheg yn 18-19 mis oed a system lai dwys sy'n gorffen pesgi gwartheg yn 24 mis oed. Mae angen ystyried y math o anifeiliaid sydd gennych wrth ddewis rhwng y systemau hyn. Er enghraifft, mae'n haws gorffen pesgi heffrod sy'n groesiadau o fridiau biff pan fyddant yn 19 mis oed â symiau cymharol isel o ddwysfwydydd o gymharu â bustych, sy'n fwy addas ar gyfer diet llai dwys seiliedig ar laswellt sy'n caniatáu iddynt dyfu cyn troi porthiant yn fraster yn well pan fyddant yn 23/24 mis oed.



On d beth bynnag fo'r system yr ydych yn ei defnyddio, y wers i'w dysgu a bwysleisiwyd ganddynt oedd y dylid cynllunio a dod i wybod am eich targedau perfformiad, a defnyddio technolegau megis rheoli porfa a phwysio i fonitro cynnydd. Pwysleisiwyd hefyd y dylid canolbwyntio ar allbwn fesul hectar o systemau seiliedig ar borfa i helpu i sicrhau llwyddiant.

Yn anffodus, nid oeddent wedi gwneud llawer o ymchwil ynghylch systemau sy'n lloea yn yr hydref, ond cafwyd rhywfaint o gipolygon defnyddiol ar sut i ddefnyddio glaswellt fel rhan o ddiet gwartheg bíff fel porthiant cymharol rad. Ond mae'n bwysig gwybod beth yw eich costau a monitro eich cynnydd, ac fe wnaethant roi pwyslais sylweddol ar y neges bod eich dull o reoli yn hollbwysig. Fe wnaethant bwysleisio cyfnod cynnar oes y llo, oherwydd gall unrhyw broblemau iechyd sy'n digwydd bryd hynny effeithio'n sylweddol iawn ar y canlyniad terfynol.

Diwrnod 3: Stephen Butler, Coleg Clonakilty, Clonakilty, Cork Andrew a Leanie Workman, Fferm Dunnary, Swydd Louth

Roedd ymweld â Choleg Clonakilty yn ddefnyddiol iawn o ran gallu trafod y cyfraniad y gall semen â'i ryw wedi'i bennu ei wneud yn y diwydiant llaeth, gan ystyried y manteision a'r anfanteision. Roedd rhai o'r buddion y gwnaethom ni eu trafod yn ymwneud â defnyddio semen â'i ryw wedi'i bennu i symleiddio'r broses o fagu heffrod, trwy fridio heffrod cyfnewid o'r buchod 'gorau' yn unig, i helpu i gyflymu enillion genetig. Mae hwn yn adnodd defnyddiol iawn mewn buchosi sy'n ehangu, ac nid yw'n peryglu bioddiogelwch. Yna, trwy allu croesi canran uwch o'r fuches â theiwr bridiau bíff, ceir potensial i wneud rhagor o arian trwy gynyddu nifer yr anifeiliaid bíff a gynhyrchir. Ar y llaw arall, fe wnaethom ni drafod cyfrifiad y 'drifft', sef y colledion ariannol a achosir gan y ganran o gyfebru sydd ddim yn llwyddo.

Amcangyfrifir bod hyn yn 45% ar hyn o bryd yn achos cyfraddau beichiogi wrth ddefnyddio semen confensiynol (fodd bynnag, mae'r cynnydd cyflym mewn technolegau yn golygu bod y bwlch hwn yn culhau). Mae cyfrifiad y 'drifft' yn ystyried nifer y diwrnodau cynhyrchu llaeth a gollir gan fuchod sydd ddim yn beichiogi ar ôl cael eu semenu â semen â'i ryw wedi'i bennu, sy'n golygu ei fod yn ffordd eithaf drud o fagu heffrod cyfnewid ar gyfer y fuches.



Er y gallem ni geisio lleihau'r golled hon trwy gynyddu canran y buchod sy'n gofyn tarw yn gynnwys yn ystod y tymor bridio, fe wnaeth Stephen Butler o Goleg Clonakilty awgrymu y dylid semenu heffrod yn gynharach wrth ddefnyddio semen â'i ryw wedi'i bennu, oherwydd bydd hynny'n effeithio llai ar y fuches sy'n cael ei godro os na fyddant yn beichiogi ar y cyfle cyntaf. Mae hynny hefyd yn elwa'n llawn o'r adnoddau genetig mwyaf datblygedig ar y fferm trwy ddefnyddio'r buchod sydd wedi'u bridio orau yn ôl pob tebyg i fridio anifeiliaid newydd. Yn ychwanegol, gallai ystyried gwahanol dechnegau cydamseru fod yn ddefnyddiol er mwyn gallu elwa'n llawn o semen â'i ryw wedi'i bennu.

Yn y prynhawn, cefais gyfle i gyfranogi mewn ymweliad â fferm organig oedd yn ystyried gwahanol dulliau o dyfu cnydau, yn cynnwys tyfu codlysiâu a meillion mewn cylchdro cnydau er mwyn rhoi nitrogen a deunydd organig gwyrdd yn ôl yn y pridd. Fe wnaethant hefyd gynnig argymhellion ynghylch sefydlu cnydau yn organig gan ddefnyddio dulliau 'trin tir yn fanwl gywir'. Yno, cefais ragor o wybodaeth am ddealltwriaeth Andrew ynghylch gofalu am y pridd. Trwy sicrhau bod y pridd yn y cyflwr gorau posibl, byddai hynny'n caniatáu i'r cnwd ddefnyddio maetholion yn fwy effeithiol, ac felly, byddai'r cnwd yn cael ei gynyddu heb unrhyw wrteithiau artiffisial. Yn y llun uchod, gwelir haidd gwanwyn yn cael ei dyfu ar y rhan o'r cae ble ceir tir gwell sy'n fwy ffrwythlon, i geisio sicrhau y caiff y cyfle gorau i ffynnu. Ar y dde, tyfir rhygwellt ar dir sychach a llai ffrwythlon, oherwydd mae'n gnwd mwy gwydn, a byddai'n dal i berfformio'n dda ar dir o fath. Mewn gwirionedd, gallai'r coesynnau dyfu'n rhy uchel ac ysigo ar y math arall o bridd, a byddai cnwd yn amhosibl ei gynaeafu.

Mae unrhyw dechnegau i gynyddu cyfanswm y cnydau porthi a gynhyrchir ar y fferm yn caniatáu i'r fferm gynyddu cyfraddau stocio. Mae hyn yn cynorthwyo i gynyddu proffidoldeb fesul hectar.

Diwrnod 4: Teagasc, Grange, Dunsany, Swydd Meath a Ffermydd yn ardal Swydd Meath

Treuliais fy niwrnod llawn olaf yn Iwerddon gyda thîm Teagasc. Yn y bore, treuliais rywfaint o amser gyda David Argue, ymgynghorydd Prosiect Magu Lloi Green Acres. Roedd 15 fferm yn cynnal prosiect magu lloi fel rhan o'r cynllun. Roedd pob fferm yn wahanol ei maint, ac yn prynu lloi a anwyd yn y gwanwyn o ffermydd llaeth (cymysgedd o loi oedd yn groesfridiau â bridiau bîff a lloi pur o'r fuches laeth). Yn dilyn eu magu dan do yn ystod y ddau fis cyntaf, cawsant eu troi allan ym mis Mai ac roeddent yn dilyn cylchdro pori caeth. Yn debyg i lawer iawn o systemau pori eraill ar gyfer buchesi llaeth, mesurodd y ffermwr y borfa ym mhob llain i gyfrifo cyfanswm y deunydd sych oedd ar gael yn y cnwd. Yna, nododd beth oedd 3% o bwysau corff pob anifail i bennu eu galw dyddiol am ddeunydd sych, a chyfrifodd faint o laswellt y byddai ar bob grŵp o anifeiliaid ei angen (roedd posibilrwydd hefyd i allu cynhyrchu rhywfaint o silwair gan ddefnyddio unrhyw gyflenwadau o laswellt ar ben y gofynion). Tueddai'r ffermwr i roi lloi o dan flwydd oed mewn lleiniau am y ddau ddiwrnod cyntaf, wedi'u dilyn gan flwyddiaid i glirio'r gweddillion a sicrhau bod y glaswellt yn dychwelyd i'r cyflwr delfrydol i allu ei drin. Tueddai'r rhan fwyaf o ffermwr i fod ag ail gyfnod dan do yn ystod gaeaf cyntaf y lloi, wedi'i ddilyn gan gyfnod pori arall. Roedd rhai ffermydd yn gorffen pesgi'r lloi ar borfa pan oeddent yn pwysu tua 500kg ym mis Hydref, ond roedd gan y mwyafrif y cyfleusterau i gadw'r lloi dan do am ychydig fisoedd ychwanegol i orffen eu pesgi yn pwysu 620kg. Roedd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol iawn i mi, ac roedd y ffermwr a oedd yn cyfranogi yn y prosiect eisoes wedi profi enillion yn sgil rheoli eu glaswellt yn well, oherwydd roeddent yn tyfu rhagor o borthiant o ansawdd well ar gyfer eu hanifeiliaid.





Yna, treuliais y prynhawn yng nghanolfan ymchwil Grange Farm, ble maent yn cynnal ymchwil ynghylch defnyddio teirw â gwahanol fynegeion perfformiad a chadw lloi ar system seiliedig ar borfa. Nod y prosiect oedd ceisio canfod gwerth ariannol y gwahaniaeth rhwng defnyddio teirw Angus â mynegeion perfformiad uchel a rhai â mynegeion perfformiad isel. Megis dechrau oedd gwaith y prosiect, ond rwy'n edrych ymlaen at gael gwybod am y canlyniadau maes o law.

3 Y Camau Nesaf

Fe wnes i ystyried pa newidiadau y gallwn eu gwneud a llunio cynllun gweithredu ar gyfer ein fferm:

- Symleiddio'r gwaith o fagu lloi trwy eu magu mewn grwpiau a phrynu troli â modur i gludo llaeth i'r lloi.
- Semenu heffrod â semen â'i ryw wedi'i bennu, gan nodi'r adnoddau genetig gorau a semenu'n gynt (efallai gan ddefnyddio teirw 'paratoadol' i geisio cynyddu cyfraddau beichiogi). Ond o hyn ymlaen, byddwn yn defnyddio mwy o semen â'i ryw wedi'i bennu cyn defnyddio semen confensiynol, er mwyn gwella ansawdd yr holl dda byw ar ein fferm.

- Ystyried mynegai stoc terfynol semen confensiynol teirw bridiau llaeth a chadw lloi gwryw Holstein ar system mewnbwn isel llai dwys (gan ddilyn enghraifft rhaglen 'Dairy Calf to Beef' Teagasc, gan ddefnyddio'r dull cylchdro porfa). Gallem ni fagu'r anifeiliaid hyn yn organig gan obeithio sicrhau gwell pris amdanynt.
- Defnyddio semen teirw â mynegeion uchel i sicrhau anifeiliaid bîff o ansawdd dda a lloi a gaiff eu geni ar ddechrau'r bloc lloea. Byddai'r rhain yn cael eu magu'n gonfensiynol i allu eu gwerthu i farchnad ehangach a gwneud defnydd o uned gonfensiynol sy'n gysylltiedig â fferm y teulu. Byddai'r lloi yn mynd yno yn 5 mis oed, a byddid yn gorffen eu pesgi pan fyddent rhwng 18 ac 20 mis oed.
- Defnyddio dulliau mwy effeithiol o gynyddu cyfanswm y cynydu porthi a gynhyrchir ar fferm organig.
- Y budd mwyaf oedd gallu dysgu sgiliau ymarferol newydd ynghylch magu lloi, ac rwy'n gobeithio y byddant yn gwella fy ngallu i fridio da byw.



Diolch yn fawr iawn i'r canlynol:

Chris James, Claire ac Aimee, Stackpole, Sir Benfro; Teagasc; ffermwyr sy'n rhan o brosiect magu lloi Green Acres; Coleg Clonakilty; a phawb arall sydd wedi rhoi eu hamser i mi ac wedi cynnig cyngor.

Diolch hefyd i Cyswllt Ffermio am y cyfle.